

**Bwletin Awdurdod S4C**  
**Cyfarfod 311 – 22 Mai 2008**  
**Gwesty Plas Maenan, Llanrwst**

---

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2008.

**1. Tystiolaeth i Bwyllgor Darlledu'r Cynulliad**

Bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn mynd gerbron y Pwyllgor ar 2 Mehefin.

**2. Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc**

Cyflwynodd Rhian Gibson gynlluniau lansio'r gwasanaeth meithrin, sef "Cyw". Bydd yn cael ei lansio yn ystod Eisteddfod yr Urdd Sir Conwy gyda sioe ar lwyfan pafiliwn yr Eisteddfod, gorymdaith o amgylch y maes a derbyniad ym mhabel S4C. Yna bydd Cyw yn mynd ar daith bws o amgylch Cymru i hyrwyddo'r gwasanaeth newydd. Yn ogystal bydd cynllun marchnata gynhwysfawr yn cyd-fynd gyda'r lansiad. Bydd y gwasanaeth yn cychwyn darlledu ar 23 Mehefin.

**3. Cam nesaf adolygiad Ofcom o ddarlledu Cyhoeddus**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Roedd wedi mynychu seminar a drefnwyd gan Ofcom a'r IWA i drafod materion sy'n effeithio ar Gymru o fewn yr adolygiad a'r pedair model y mae Ofcom wedi eu hawgrymu.

**4. Goblygiadau Cydgyfeiriant a gwaith y *Convergence Think Tank***

Nododd y Prif Weithredwr fod seminar olaf y *Convergence Think Tank* wedi ei drefnu. Testun y seminar fydd cydgyfeiriant yng nghyd-destun adolygiad Ofcom o ddarlledu cyhoeddus.

**5. Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

Rhoddodd y Cadeirydd gyflwyniad i Hakka TV o Taiwan yn ddiweddar, a threfnwyd diwrnod o ddigwyddiadau iddynt.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod gyda Cen Williams yn ddiweddar i drafod materion yn ymwneud â ieithwedd rhaglenni, yn enwedig rhaglenni plant. Bydd yn cyfarfod gyda'r Athro Colin Baker yfory.

Cynhaliodd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd gyfarfod gyda Barry Cox (Cadeirydd Digital UK) ddoe i drafod materion yn ymwneud â DSO sy'n berthnasol i S4C.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at drefn cyfarfodydd yr Awdurdod a'i Chyfarfodydd Cyhoeddus. Penderfynwyd derbyn ei awgrym i ailedrych ar batrwm y cyfarfodydd cyhoeddus.

**6. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Nododd y Prif Weithredwr ei bod hi a'r Ysgrifennydd wedi cydweithio i ymateb i ymgynghoriad gan y DCMS ar drefniadau newydd ar gyfer trwyddedu gwasanaethau manylder uwch ar blatfform Freeview.

**7. Polisi Masnachu Teg**

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd y Polisi Masnachu Teg drafft. Y bwriad yw ymgynghori ar y Polisi am gyfnod o fis yn dilyn cymeradwyo'r ddogfen gan yr Awdurdod.

**8. Polisi Cydraddoldeb Hiliol**

Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y Polisi.

**9. Materion Eraill**

- Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg